

2022 Rhif 151 (Cy. 49)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Ffordd Osgoi Caernarfon a
Bontnewydd, Gwynedd) (Terfyn
Cyflymder 40 mya, Dileu
Cyfyngiadau a Gwahardd
Goddiweddyd) 2022**

Gwnaed 15 Chwefror 2022

Yn dod i rym 18 Chwefror 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2), 4(2), 82(2), 83(1), 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 mya, Dileu Cyfyngiadau a Gwahardd Goddiweddyd) 2022 a daw i rym ar 18 Chwefror 2022.

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802 (Cy. 175). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r luoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r luoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

Gwahardd Goddiweddyd

4. Ni chaiff neb ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd y cyfeirir ato yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

Cyfarwyddyd

5. Cyfarwyddir y bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

15 Chwefror 2022

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes

Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o ffyrdd ymuno ag ymadael braich ogleddol yr A487 wrth Gylchfan y Goat o'i llinell ildio wrth y system gylchu hyd at bwynt 41.2 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan y Goat.

Y darn o ffyrdd ymuno ac ymadael braich ddeheuol yr A487 wrth Gylchfan y Goat o bwynt 64.5 o fetrau i gyfeiriad y gogledd o ganolbwynt y groesfan a reolir hyd at bwynt 120 o fetrau i gyfeiriad y de o ganolbwynt y groesfan a reolir.

Y darn o gerbytyffyrdd tua'r gogledd a thua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 56 o fetrau i gyfeiriad y de-orllewin o Gylchfan Meifod hyd at bwynt 55 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Meifod gan gynnwys system gylchu Cylchfan Meifod.

Y darn o gerbytyffyrdd gogledd a thua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 54 o fetrau i gyfeiriad y de o ganolbwynt Cylchfan Cibyn hyd at bwynt 55 o fesuryddion i gyfeiriad y gogledd o ganolbwynt Cylchfan Cibyn, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan.

ATODLEN 2

Gwahardd Goddiweddyd

Y darn o gerbytyffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan y Goat a Chylchfan Meifod sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r gogledd o ganolbwynt y danffordd yng Nglan Rhyd hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd o linell ganol y danffordd yn Fferm Dinas.

Y darn o gerbytyffordd tua'r de cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan y Goat a Chylchfan Meifod sy'n ymestyn o bwynt 84 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r danffordd wrth y Drosbont Teithio Llesol hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o linell ganol y danffordd yn Fferm Dinas.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan Meifod a Chylchfan Cibyn sy'n ymestyn o bwynt 70 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt trosbont Ffordd Penybryn hyd at bwynt 377 o fetrau i'r de o linell ganol yr A4085 wrth drosbont yr A487.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan Meifod a Chylchfan Cibyn sy'n ymestyn o bwynt 556 o fetrau i gyfeiriad y de-orllewin o ganol Cylchfan Cibyn hyd at bwynt 325 o fetrau i'r de o linell ganol yr A4085 wrth drosbont yr A487.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan Cibyn a Chylchfan Plas Menai sy'n ymestyn o bwynt 46 o fetrau i'r gogledd o linell ganol Cwlfert Afon Cadnant hyd at bwynt 91 o fetrau i'r de o ganol Cylchfan Plas Menai.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan Cibyn a Chylchfan Plas Menai sy'n ymestyn o bwynt 255 o fetrau i'r de o linell ganol Cwlfert Afon Cadnant hyd at bwynt 134 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o ganol Cylchfan Cibyn.

ATODLEN 3

Cyfarwyddyd

Y darn o gerbyttfyrdd tua'r gogledd a thua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 41.2 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan y Goat hyd at bwynt 56 o fetrau i gyfeiriad y de-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Meifod.

Y darn o gerbyttfyrdd tua'r gogledd a thua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Meifod hyd at 53.7 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Cibyn.

Y darn o gerbyttfyrdd tua'r gogledd a thua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 52 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Plas Menai ar ffordd osgoi y Felinheli yr A487, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan hyd at bwynt 55 o fesuryddion i gyfeiriad y gogledd o ganolbwynt Cylchfan Cibyn.